Tenantiaid Unedig. Tenants Together.
Gwneud gwahaniaeth | Making a difference

# PŴER TENANTIAID AR WAITH

## 2025-2026:

Llunio, arwain a chreu newid



Trivallis.



gwneud eich
Tenantiaid Unedig.
Tenants Together.

# Mae eleni wedi bod yn flwyddyn o droi cyfranogi yn gamau gweithredu.

**Fel tenantiaid, rydyn ni wedi parhau i symud y tu hwnt i broses ymgynghori yn unig. Buom yn gweithio ochr yn ochr â staff Trivallis a'n cymunedau lleol i ddylanwadu ar benderfyniadau, gwella gwasanaethau a chreu newid cadarnhaol yn y llefydd rydyn ni'n byw.**

Gyda'n gilydd, fe wnaethom ni helpu i lunio polisïau, dylanwadu ar benderfyniadau buddsoddi a chefnogi gwaith cymunedol ar draws 26 cymuned. Hefyd, rydyn ni wedi cyfrannu at drafodaethau am berfformiad gwasanaethau, rheoli risg, blaenoriaethau buddsoddi, rhenti a thaliadau gwasanaeth, gan helpu i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu llywio gan brofiad tenantiaid.

Yn bwysicach fyth, rydyn ni wedi dangos y gallwn ni wella gwasanaethau, cryfhau atebolrwydd a helpu i gyflawni canlyniadau gwell i denantiaid a chymunedau.

**Eleni, cafwyd:**

**981**
**o drigolion**
yn cyfranogi mewn sgyrsiau sy'n dylanwadu ar wasanaethau a chymunedau

**1,261**
**o oriau gwirfoddolwyr**
fel cynghorwyr, eiriolwyr ac arweinwyr cymunedol

**239**
**o gyfarfodydd a digwyddiadau**
gyda chyfle i denantiaid ddylanwadu ar benderfyniadau a chyd-gynhyrchu atebion

**23**
**o bolisïau a chamau i fynd i'r afael â gwasanaethau,**
gyda thenantiaid wedi dylanwadu'n uniongyrchol arnyn nhw

**51**
**o ddigwyddiadau dan arweiniad tenantiaid a gwelliannau cymunedol**
wedi eu cyflwyno drwy gydweithrediad lleol

**£81,920.74**
wedi'i fuddsoddi mewn cymunedau drwy grantiau buddion cymunedol

## Dylanwad tenantiaid ar benderfyniadau

**Un o’n cyflawniadau mwyaf eleni yw sicrhau bod lleisiau tenantiaid yn parhau i ddylanwadu ar benderfyniadau sy’n effeithio ar ein cartrefi a’n cymunedau.**

Trwy’r Panel Gweithredu Tenantiaid (TAP), gweithgorau a chyfleoedd i gyfranogi, rydyn ni wedi herio, cwestiynu a dylanwadu ar sut mae Trivallis yn gweithredu i gefnogi arweinyddiaeth a llywodraethu effeithiol. Trwy fynychu cyfarfodydd y Bwrdd a chynnal aelodau’r Bwrdd yng nghyfarfodydd TAP, fe wnaethom ni helpu i lywio sgyrsiau a phenderfyniadau ar y lefel uchaf yn Trivallis. Mae hyn wedi cefnogi arweinyddiaeth effeithiol, llywodraethu cryf a phenderfyniadau gwell ar draws y sefydliad.

Hefyd, rydyn ni wedi cyfrannu mewnwelediad tenantiaid at drafodaethau am berfformiad gwasanaethau, blaenoriaethau strategol, risgiau a phenderfyniadau am fuddsoddi, gan helpu i sicrhau bod penderfyniadau’n adlewyrchu anghenion a phrofiadau tenantiaid.

## Chi'n dweud – ni'n gwneud

| Fe wnaethoch chi ddweud | Gyda'n gilydd, fe wnaethom ni |
|---|---|
| • Dylai polisïau rhent fod yn deg ac yn gefnogol | Adolygu sut y delir gydag ôl-ddyledion rhent a dylanwadu ar ddatblygiad polisi i gefnogi dull teg a chynaliadwy o gasglu rhenti. |
| • Mae angen mwy o dryloywder ynglŷn â ffioedd gwasanaeth | Gwella dulliau craffu a dealltwriaeth tenantiaid o renti a thaliadau gwasanaeth, gan helpu i fod yn fwy clir ac atebol. |
| • Mae angen mwy o eglurder ynglŷn â threfniadau paneli solar | Gweithio gyda Trivallis i archwilio perchnogaeth, buddsoddiad ac opsiynau rheoli asedau yn yr hirdymor. |
| • Dylai cyllid cymunedol adlewyrchu blaenoriaethau lleol | Mwy o ddylanwad cymunedol dros benderfyniadau buddsoddi a defnydd o adnoddau. |
| • Dylai prosesau tenantiaeth fod yn haws i’w deall | Dyraniadau’n cael eu hadolygu a gwybodaeth i denantiaeth |

Fel tenantiaid sy’n cyfranogi, rydyn ni’n gwybod bod penderfyniadau’n well pan fyddan nhw’n cynnwys pobl â phrofiadau bywyd.

**Rydych chi wedi gwrando ar yr hyn rydyn ni wir ei angen, nid dim ond yr hyn sy'n hawdd ei gyflawni**

**– Tenant**



## Y gwahaniaeth wnaethom ni

- Mwy o dryloywder ac atebolrwydd
- Ymddiriedaeth gryfach rhwng tenantiaid a Trivallis
- Penderfyniadau gwell a mwy gwybodus am wasanaethau, buddsoddiadau ac adnoddau
- Mwy o hyder bod adnoddau'n cael eu buddsoddi yn y pethau pwysig, a'u bod yn cyflawni gwerth am arian

## Cyd-gynhyrchu a dylunio gwasanaethau

**Eleni, mae tenantiaid wedi chwarae rhan weithredol yn y gwaith o ddylunio a gwella gwasanaethau o'r radd flaenaf. Gan weithio ochr yn ochr â thimau Trivallis, rydyn ni wedi:**

### Atgyweiriadau

- Cyd-ddylunio elfennau o'r porth tenantiaid
- Helpu i ddylunio'r broses ar gyfer delio â lleithder, llwydni ac anwedd, gan gefnogi'r gwaith o reoli risg, sicrhau diogelwch tenantiaid a sicrwydd gwasanaeth.
- Dylanwadu ar safonau a disgwyliadau contractwyr

### Rheoli asedau

- Cyfrannu at drafodaethau ar flaenoriaethau buddsoddi a rheoli asedau yn yr hirdymor
- Dylanwadu ar flaenoriaethau cynaliadwyedd a gwelliannau amgylcheddol
- Rhannu barn tenantiaid ar gynnal cartrefi a chymdogaethau diogel o ansawdd uchel

### Llety o'r radd flaenaf

- Trwy weithgareddau ymgysylltu, rydyn ni wedi parhau i ddylanwadu ar benderfyniadau buddsoddi mewn cartrefi, gwelliannau amgylcheddol a gwasanaethau sy'n cefnogi llety diogel, sydd wedi'i gynnal yn dda ac sydd o ansawdd uchel.

### Ymddygiad gwrthgymdeithasol

- Helpu i lunio dulliau ataliol
- Rhannu gwybodaeth leol am bryderon diogelwch cymunedol

### Tai gwarchod

- Wedi arwain gweithgareddau llesiant
- Wedi cefnogi ymgysylltu a chynhwysiant dan arweiniad cymheiriaid

### Dechrau Da

Bu tenantiaid yn gweithio gyda thimau rheng flaen i ailgynllunio'r ffordd mae preswylwyr newydd yn cael eu croesawu i'w cartrefi ac i'w cymunedau.

Mae hyn wedi helpu i gryfhau cysylltiadau cymunedol o gychwyn cyntaf tenantiaeth gan wella'r tebygolrwydd y bydd y denantiaeth yn llwyddo yn yr hirdymor.



## Diwrnodau Gwych i'r Gymuned

Ledled ein cymunedau, mae tenantiaid wedi gweithio ochr yn ochr â thimau tai, timau atgyweirio a chontractwyr i fynd i'r afael â materion sy'n bwysig yn lleol.

Ym Mhant y Cerdin, daeth trigolion at ei gilydd i wella amgylchedd eu cymdogaeth. Mae'r canlyniad wedi bod yn fwy na gwelliannau ffisegol yn unig. Rydyn ni wedi gweld mwy o falchder, hyder a pherchnogaeth yn ein cymunedau.




> **Alla i ddim credu ein bod ni wedi llwyddo i wneud hyn."**
>
> **– Tenant**

**Astudiaeth achos**

## Tenantiaid yn llywio newid ym maes atgyweirio

**Rydyn ni'n gwybod ei bod hi'n anodd trefnu gwaith atgyweirio pan mae bywyd yn brysur. Mae llawer ohonom ni'n gweithio, yn gofalu am eraill neu'n rheoli anghenion iechyd. Doedd y ffordd o riportio anghenion atgyweirio ddim yn cyd-fynd â'r prysurdeb hwn bob amser.**

Trwy siarad mewn digwyddiadau ac yn ein cymunedau, fe sylweddolon ni fod hon yn broblem gyffredin. Felly fe wnaethom ni benderfynu mynd ati i helpu i wella hynny. Fel rhan o'r Gweithgor Atgyweiriadau, buom yn gweithio gyda staff Trivallis i greu ap digidol, Report It, ar y porth tenantiaid. O'r cychwyn cyntaf, cawsom ein trin fel partneriaid cyfartal, nid dim ond pobl sy'n rhoi adborth.



Fe wnaethom ni helpu i ddylunio'r ap a fyddai'n gweithio mewn sefyllfaoedd go iawn. Gallwch lanlwytho lluniau neu fideos yn hytrach na cheisio esbonio'r broblem. Fe ofynnon ni am amseroedd apwyntiadau hyblyg ac iaith glir, syml. Hefyd, fe wnaethom ni brofi'r system ein hunain, gan ddefnyddio ein ffonau a'n dyfeisiau ein hunain, i wneud yn siŵr ei bod hi'n hawdd i bawb ei ddefnyddio.

Mae pethau wedi gwella. Mae ap Report It yn ei gwneud hi'n haws archebu gwaith atgyweirio, mae llai o apwyntiadau yn cael eu colli, ac mae mwy o bethau'n cael eu hatgyweirio yn yr ymweliad cyntaf. Mae'r profiad hwn yn dangos beth all ddigwydd pan fydd tenantiaid yn arwain y blaen. Fe wnaethom ni lawer mwy na helpu i wella'r gwasanaeth - fe wnaethom ni helpu i'w ddylunio mewn ffordd sy'n gweithio i bobl go iawn.

Bu ein gwaith ar ap Report It yn ennill gwobr Arfer Da TPAS Cymru 2026 am 'Gynnwys tenantiaid wrth ddylunio neu adolygu gwasanaethau'.

## Effaith ar ansawdd a pherfformiad gwasanaethau

**Mae cynnwys tenantiaid yn parhau i wella'r gwasanaethau mae pobl yn eu derbyn. Trwy adborth, her a chyd-gynhyrchu, rydyn ni wedi helpu i lunio:**

- Gwasanaethau atgyweirio mwy ymatebol
- Ymagweddau ataliol cryfach at gymorth tenantiaeth ac wrth ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Cyfathrebu gwell â thenantiaid
- Gwasanaethau amlycach yn y gymdogaeth
- Buddsoddiad yn y gymuned sy'n adlewyrchu anghenion lleol yn well ac yn cyflawni gwerth am arian
- Dealltwriaeth well o flaenoriaethau tenantiaid wrth gynllunio rhaglenni buddsoddiad
- Mwy o sicrwydd i denantiaid ynghylch diogelwch, cydymffurfiaeth a pherfformiad gwasanaethau




Mae llawer o denantiaid yn dweud wrthym eu bod yn teimlo'n fwy hyderus yn y gwasanaethau a bod ganddyn nhw berthynas gryfach â staff oherwydd eu bod nhw'n gallu gweld bod eu barn yn arwain at newid.

## Craffu, her ac atebolrwydd tenantiaid

**Mae mwy i gyfranogi da na chytuno gyda rhywun. Weithiau mae'n golygu gofyn cwestiynau anodd. Trwy TAP a grwpiau cyfranogi eraill, rydyn ni wedi:**

- Adolygu polisïau a gweithdrefnau
- Cyfrannu at yr hunanasesiad ar safonau rheoleiddiol
- Herio perfformiad gwasanaethau
- Dylanwadu ar flaenoriaethau strategol
- Cyfrannu at drafodaethau ynghylch llywodraethu
- Adolygu gwybodaeth sy'n ymwneud â rhenti, taliadau gwasanaeth a blaenoriaethau buddsoddi
- Cyfrannu safbwyntiau tenantiaid i drafodaethau am risg, sicrwydd a chydymffurfiaeth
- Dal Trivallis i gyfrif am ei ymrwymiadau

Trwy ddarparu her adeiladol, rydyn ni wedi helpu i sicrhau bod penderfyniadau'n destun mwy o graffu, bod risgiau'n cael eu deall yn well, a bod safbwyntiau tenantiaid yn parhau i fod yn ganolog wrth wneud penderfyniadau sefydliadol.

> **Rydyn ni'n gwybod eich bod chi o'n plaid ni ... rydyn ni'n un tîm, Trivallis a'r gymuned gyda'i gilydd.**
>
> **– Tenant**






## Cynhwysiant a chynrychiolaeth

**Mae tenantiaid yn cyfranogi mewn sawl ffordd wahanol. Roedd y cyfleoedd eleni yn cynnwys:**

- Panel Gweithredu Tenantiaid
- Gweithgorau
- Paneli recriwtio
- Gweithdai ailgynllunio gwasanaethau
- Arolygon ac ymgynghoriadau
- Ymgysylltu ar-lein
- Sgyrsiau o ddrws i ddrws
- Digwyddiadau cymunedol
- Cyfarfodydd arweinwyr cymunedol sy'n cynnwys dros 100 o arweinwyr lleol

> **Nid dim ond gofyn beth rydyn ni'n ei feddwl maen nhw, rydyn ni'n rhan o'r broses o wneud i bethau ddigwydd**
>
> **– Tenant**

Mae'r amrywiaeth hon yn helpu i sicrhau bod cyfranogi yn hygyrch i fwy o bobl ac yn adlewyrchu ystod ehangach o brofiadau tenantiaid.

## Effaith gymunedol a newid dan arweiniad tenantiaid

**Ledled cymunedau Trivallis, rydyn ni wedi gweld trigolion yn camu ymlaen i arwain gweithgareddau, cefnogi cymdogion a gwella ardaloedd lleol. Mae'r gweithgarwch dan arweiniad tenantiaid wedi cynnwys:**

- Rhedeg hybiau cymunedol
- Cefnogi teuluoedd trwy fentrau bwyd a lles
- Gwella amgylcheddau lleol
- Dylanwadu ar brosiectau adfywio
- Creu cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli, hyfforddiant a chyflogaeth

Ar draws 26 cymuned, mae trigolion yn dangos beth sy'n gallu digwydd pan fydd pobl yn gadael i bobl leol arwain y blaen.

**Fel y myfyriodd un preswylydd:**

> **Heb y lle hwn [hyb cymunedol] dwi ddim yn gwybod ble fyddwn i... dwi'n gofalu am y lle fel dwi'n gofalu am fy nghartref fy hun... mae gweld y plant yn dod ynghyd ar ôl ysgol yn anhygoel.**
>
> **– Tenant**

## Y gwahaniaeth rydyn ni'n ei weld

- Cysylltiadau cymdeithasol cryfach
- Llai o ynysu
- Mwy o hyder ac arweinyddiaeth
- Gwell mynediad at gymorth a chyfleoedd
- Mwy o falchder yn y gymdogaeth
- Gwydnwch cymunedol cryfach



> **Gydag ychydig o gefnogaeth, gallwn wneud cymaint mwy nag y mae pobl yn ei feddwl.**
>
> **– Tenant**

## Profiad tenantiaid o gyfranogi

**Y neges gryfaf rydyn ni wedi'i chlywed eleni yw bod pobl yn teimlo bod eu cyfraniad nhw'n bwysig. Mae tenantiaid yn dweud wrthym eu bod nhw'n teimlo:**

- Bod eraill wedi gwrando arnyn nhw a'u parchu
- Yn fwy hyderus wrth ddylanwadu ar benderfyniadau
- Bod ganddyn nhw gysylltiad gwell â'u cymunedau
- Yn falch o gyfrannu at newid lleol
- Yn fwy abl i ddylanwadu ar wasanaethau

Mae'r profiadau hyn yn dangos newid o fod yn bobl yr ymgynghorir â nhw i ddod yn bartneriaid gwirioneddol wrth wneud i newid ddigwydd.

**Astudiaeth achos**

### Trigolion Pen Dinas yn gwella diogelwch tân

Ym Mhen Dinas, fe wnaethom ni weithio gyda'n gilydd i wneud ein cartrefi yn fwy diogel mewn ffordd sy'n gweithio go iawn.

Yn ystod archwiliadau diogelwch tân, clywsom y gallai eitemau fel beiciau mewn ardaloedd cymunedol fod yn risg. Yn hytrach na dweud wrthyn ni am eu symud oddi yno, gofynnwyd i ni pam eu bod nhw yno. Fe wnaethom ni esbonio nad oes gan lawer ohonom ddigon o le storio yn ein cartrefi.

Wrth i'r staff wrando arnom ni, symudwyd y ffocws o orfodi i ddod o hyd i ateb ymarferol. Gyda'n gilydd, fe edrychon ni ar ble roedd lle ar gael ar y stad. Fe wnaethom ni nodi saith garej wag y gellid eu defnyddio eto.

Yna dyrannwyd y garejys yn seiliedig ar angen. Rhoddwyd chwech i aelwydydd fel lle storio ychwanegol, a chafodd un ei throi'n storfa feics y gallai pawb ei rhannu. Roedden ni'n rhan o'r broses bob cam o'r ffordd, gan helpu i lunio'r ateb fel ei fod yn gweithio i ni.

Mae'r canlyniadau wedi bod yn gadarnhaol iawn. Mae ardaloedd cymunedol bellach yn glir ac yn fwy diogel, ac mae gennym ni leoedd diogel i storio ein heiddo. Mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr i fywyd bob dydd ac wedi lleihau'r straen i lawer ohonom.

Dyma enghraifft dda o sut y gall cynnwys tenantiaid wella diogelwch, gwneud defnydd gwell o asedau presennol a darparu atebion ymarferol sy'n darparu gwerth am arian. Yn bwysicaf oll, roedden ni'n teimlo bod pobl eraill yn gwrando arnom ni. Trwy weithio gyda'n gilydd, fe ddaethom ni o hyd i ateb sydd o fudd i bawb. Roedd Prosiect Diogelwch Tân Pen Dinas yn ail yn ngwobr Arfer Da TPAS Cymru 2026 am 'Ymgysylltu â phreswylwyr mewn cartrefi diogel ac iach'.

## Adborth a chlymu'r ddolen

**Rhan allweddol o gyfranogi ystyrlon yw gwybod beth ddigwyddodd o ganlyniad i hynny. Gydol y flwyddyn, rhannwyd adborth drwy'r canlynol:**

- Cyfarfodydd Panel Gweithredu Tenantiaid
- Gweithgorau
- Digwyddiadau cymunedol
- Diwrnodau gwych i'r gymuned
- Sgyrsiau uniongyrchol
- Diweddariadau ar wella gwasanaethau

Gallwn weld yn glir sut mae ein barn wedi dylanwadu ar benderfyniadau a gwelliannau.

## Dysgu a gwelliant parhaus

**Mae eleni wedi pwysleisio sawl gwers bwysig:**

- Mae ymyrraeth gynnar yn gweithio
- Atebion dan arweiniad y gymuned yn aml yw'r rhai mwyaf cynaliadwy
- Mae cysylltiadau cryf yn creu canlyniadau gwell
- Mae arweinyddiaeth leol yn cryfhau cymunedau
- Mae gwrando ar brofiad bywyd yn gwella'r broses o wneud penderfyniadau
- Mae gwaith craffu cryf gan denantiaid yn helpu i wella atebolrwydd, sicrwydd ac ansawdd gwasanaethau

Mae'r gwersi hyn yn parhau i siapio ein ffordd o weithio gyda Trivallis a sut y bydd cyfleoedd cyfranogi yn datblygu yn y dyfodol.

## Edrych tua'r dyfodol

**Fel Tenantiaid Unedig, hoffem barhau i adeiladu ar y cynnydd a wnaed eleni. Mae ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys:**

- Mwy o gyfleoedd i wneud penderfyniadau dan arweiniad y gymuned
- Cynyddu dylanwad tenantiaid dros benderfyniadau buddsoddi a blaenoriaethau rheoli asedau
- Cefnogi mwy o arweinwyr o blith tenantiaid a gwirfoddolwyr
- Cryfhau'r craffu gan denantiaid ar berfformiad gwasanaethau, rhenti a thaliadau gwasanaeth
- Ehangu cyfleoedd cyfranogi cynhwysol
- Helpu i reoli risg, sicrwydd ac atebolrwydd yn well trwy her gan denantiaid
- Sicrhau bod mewnwelediad tenantiaid yn parhau i lywio gwelliannau i wasanaethau a chartrefi o ansawdd uchel

Mae ein huchelgais yn syml: sicrhau bod pobl nid yn unig yn gwrando arnom ni fel tenantiaid, ond ein bod ni'n parhau i fod yn bartneriaid gweithredol gan greu cymunedau cryfach, gwasanaethau gwell a dyfodol mwy disglair i bawb.

